Adran Addysg a Phlant

Polisi Derbyn i Ysgolion 2017-18

Ebrill 2016

Cyngor Sir Gâr Carmarthenshire County Council

EICH CYNGOR **arleinamdani**
www.sirgar.llyw.cymru

YOUR COUNCIL **doitonline**
www.carmarthenshire.gov.wales

Os oes arnoch angen y cyhoeddiad hwn mewn print bras, Braille neu ar Dâp Sain, cysylltwch â 01554 899398

1.0 DERBYN PLANT I YSGOL

1.1 Mae deddf Safonau a Fframwaith Ysgol 1998 yn neilltuo swyddogaeth i Awdurdodau Derbyn, Paneli Apel a Fforwm Derbyn mewn perthynas a derbyn disgyblion i'r Ysgol.

1.2 Yn unol â'r ddeddf, Awdurdod Sir Gaerfyrddin, ac nid yr Ysgol yw'r Awdurdod derbyn ar gyfer holl ysgolion Cymunedol a Gwirfoddol Rheoledig y Sir. Y Corff Llywodraethol unigol yw'r Awdurdod Derbyn i Ysgolion Gwirfoddol a Gynorthwyir.

1.3 Mae gan pob Awdurdod Derbyn ddyletswyddau statudol i weithredu yn unol a'r Côd Derbyn i Ysgolion a'r Côd Apeliadau Derbyn Plant i Ysgol.

1.4 Yn unol a'r Côd Derbyn Plant i Ysgol mae'r Awdurdod am gael barn y Corff Llywodraethol ar Drefnidau a Pholisi Derbyn y Sir.

2.0 AWDURDOD DERBYN

2.1 Awdurdodau Derbyn

Mae derbyn plant i ysgolion yn cael ei reoli gan Awdurdod Derbyn.

(a) Ar gyfer Ysgolion Cymunedol ac Ysgolion Gwirfoddol Rheoledig yn Sir Gaerfyrddin

Yn achos ysgolion cymunedol (a adnabuwyd gynt fel ysgolion sirol) ac ysgolion Gwirfoddol Rheoledig yn Sir Gaerfyrddin, Awdurdod Lleol (ALl) Sir Gaerfyrddin yw'r Awdurdod Derbyn.

Mae'r manylion cyswllt ar gyfer ALl Sir Gaerfyrddin fel a ganlyn:-

Tîm Derbyniadau,
Cyngor Sir Gâr,
Adran Addysg a Phlant,
Adeilad 2,
Parc Dewi Sant,
Heol Ffynnon Job,
Caerfyrddin. SA31 3HB.

Rhif Ffôn: 01267 246449
Rhif Ffacs: 01267 246003
E-bost: derbyniadau@sirgar.gov.uk

(b) Ar gyfer Ysgolion mewn Awdurdodau Cyfagos

O gofio natur ddaearyddol Sir Gaerfyrddin mae'n rhannu ffiniau gydag Awdurdodau Lleol eraill.

Pe bai yr ysgol yr ydych eisiau i'ch plentyn fynd iddi mewn ardal awdurdod lleol arall dylech gysylltu â'r Awdurdod hwnnw.

(c) Ar gyfer Ysgolion Gwirfoddol a Gynorthwyir yn Sir Gaerfyrddin

Ar gyfer Ysgolion Gwirfoddol a Gynorthwyir yng Nghymru ac Ysgolion Catholig Gwirfoddol a Gynorthwyir a gynhwysir yn y ddogfen hon yr Awdurdod Derbyn yw Corff Llywodraethol yr ysgol unigol.

2.2 DEWIS YSGOL

(a) Ysgol Leol/Dalgylch

Mae'r Cyngor yn cydnabod fod yna berthynas bwysig rhwng ysgol a'i chymuned. Oherwydd hynny, mae'r Cyngor wedi dynodi ardal ddaearyddol benodedig y mae'r ysgol yn ei gwasanaethu sy'n cael ei galw'n ddalgylch yr ysgol.

Mae manylion dalgylch ysgol ar gael yn yr ysgol, ar wefan y Cyngor Sir neu maent ar gael oddi wrth yr Awdurdod Derbyn perthnasol.

Er nad yw byw yn nalgylch ysgol yn gwarantu lle yn yr ysgol mae'n ffactor bwysig gan y bydd yn rhoi blaenoriaeth uwch i'r cais na cheisiadau gan unigolion sy'n byw y tu allan i'r dalgylch.

Mae byw o fewn y dalgylch a benodwyd ar gyfer yr ysgol hefyd yn bwysig gan ei fod yn un o'r prif feini prawf wrth asesu cymhwyster i dderbyn cymorth gyda chludiant o'r cartref i'r ysgol. Ceir manylion y polisi cludiant wrth y Cyngor.

Cyn gwneud cais am le mewn ysgol mae'r Cyngor yn eich cynghori'n gryf i gysylltu a thrafod materion gyda'ch ysgol leol ac os yn bosib mynd i'w gweld fel eich bod yn gwybod am y cyfleusterau a'r cyfleoedd allant eu cynnig.

(b) Dewisiadau Rhieni

Fel y nodwyd, mae'r Cyngor yn awgrymu mai'r pwynt cyswllt cyntaf wrth ddewis ysgol fyddai'r ysgol dalgylch leol.

Er bod y rhan fwyaf o rieni yn danfon eu plentyn i'r ysgol dalgylch leol, mae gan rieni hawl i ddatgan blaenoriaeth i ysgolion gwahanol. Os ydych yn dymuno gwneud hynny argymhellir eich bod yn cysylltu â'r ysgol rydych yn meddwl amdani cyn gwneud dewis terfynol.

Os ydych yn dewis ysgol nad yw'n ysgol dalgylch leol ichi nac yr ysgol agosach at eich cartref, dylech gofio fod rhai materion ymarferol y mae angen ichi eu hystyried yn llawn cyn gwneud penderfyniad.

Y cyntaf yw os nad yw'r plentyn yn mynd i'r ysgol dalgylch leol ichi neu'r ysgol agosach at eich cartref a bod y penderfyniad hwnnw yn seiliedig ar ddewis rhieni, fod y cyfrifoldeb a'r gost o gludo'r plentyn i'r ysgol ac yn ôl yn gorwedd yn llwyr yn nwylo'r rhieni/cynhalydd.

Mae rhieni'n dweud fod hynny'n gallu bod yn broblem arbennig os oes ganddynt frawd neu chwaer iau nad yw'n cael ei dderbyn yn yr un ysgol gynradd.

Doeth felly yw ystyried a chynllunio ar gyfer y posibilrwydd hwn cyn gwneud cais am le mewn ysgol y tu allan i'r dalgylch.

Mae'r ail fater yn ymwneud â'r adeg pan mae disgyblion yn trosglwyddo o'r ysgol gynradd i'r sector uwchradd. **Mae cael lle mewn ysgolion uwchradd yn seiliedig ar a ydy eich cyfeiriad cartref o fewn dalgylch yr ysgol uwchradd. Nid yw'n seiliedig ar ba ysgol gynradd y buwyd ynddi.** Felly, pan mae disgybl wedi bod i ysgol gynradd nad yw'n ysgol dalgylch benodedig leol iddynt mae mwy o debygrwydd na fyddant yn gallu trosglwyddo i'r un ysgol uwchradd â'u cyfoedion a'u cyd-ddisgyblion.

Ni fydd y materion hyn yn berthnasol i lawer, ond gan eu bod wedi creu anawsterau i rieni yn y gorffennol argymhellir eich bod yn eu hystyried ac yn cynllunio ar eu cyfer cyn gwneud eich dewis terfynol.

Bydd y Cyngor a llywodraethwyr ysgol yn cydymffurfio'n gyfreithlon ag unrhyw fynegiant o flaenoriaeth i ysgol benodol. Fel gyda phob cais bydd blaenoriaeth i ysgol benodol yn gorfod cael ei hystyried a'i hasesu yn rhan o'r broses dderbyn i sicrhau nad yw'r Awdurdod yn mynd heibio'r terfyn ar gyfer derbyn disgyblion i'r ysgol honno ar gyfer y grŵp blwyddyn penodol.

Y term a ddefnyddir yn y ddogfen hon wrth gyfeirio at y nifer sy'n cyfyngu faint o ddisgyblion ellir eu derbyn i grŵp blwyddyn penodol mewn ysgol yw'r Nifer Derbyn neu ND. Nodir y nifer derbyn (ND) ar gyfer pob ysgol yn y rhestr o ysgolion sy'n rhan o'r llyfryn hwn.

(c) Dewisiadau Rhieni – Disgyblion a Eithriwyd Ddwywaith

Os yw disgybl wedi cael ei eithrio'n barhaol o ddwy ysgol neu ragor yn barod, er y gall rhiant ddatgan blaenoriaeth i ysgol y maen nhw'n dymuno i'w plentyn gael eu haddysgu ynddi, nid oes raid i'r Awdurdod Derbyn gydymffurfio â'r dewis hwnnw am gyfnod o ddwy flynedd o ddyddiad yr eithriad diweddaraf.

Nid yw hynny'n berthnasol i fyfyrwyr a chanddynt ddatganiadau o Anghenion Addysgol Arbennig (AAA), plant o dan oed ysgol gorfodol, plant a gafodd le ysgol yn ôl, neu a fyddai wedi cael lle yn ôl pe bai wedi bod yn ymarferol gwneud hynny, neu blant mewn gofal pan wneir y cais am le gan y rhiant corfforaethol.

(ch) Diwallu Anghenion Addysgol Ychwanegol/Arbennig

Mae gan rai plant anghenion addysgol ychwanegol neu arbennig a/neu anabledd sy'n golygu fod angen gwneud darpariaeth ychwanegol ar eu cyfer fel y gallant ddysgu'n effeithiol. Mewn amgylchiadau o'r fath trowch at adran Diwallu Anghenion Addysgol Ychwanegol/Arbennig y llyfryn hwn.

2.3 NIFER DERBYN YR YSGOL – TERFYN AR NIFER Y DISGYBLION A DDERBYNNIR

Mae gan bob ysgol Nifer Derbyn (ND) cyhoeddedig sy'n nodi a chyfyngu ar faint o ddisgyblion y gellir eu derbyn ym mhob grŵp blwyddyn yn yr ysgol. Rhoddir y ND ar gyfer pob ysgol yn y rhestr o ysgolion yn y llyfryn hwn.

Pennwyd y ND ar gyfer pob ysgol trwy ddefnyddio'r fformiwla maint a bennwyd gan Lywodraeth Cymru. Mae'r cyfrifiad yn seiliedig ar ganllawiau cenedlaethol (Mesur Capasiti Ysgolion yng Nghymru – Cylchlythyr 201/2011) ac mae'n ymwneud ag arwynebedd ffisegol adeiladau'r ysgol, y math o gyfleusterau sydd yn yr ysgol, ystod oed a nifer y grwpiau blwyddyn yn yr ysgol.

Gan fod y ND yn seiliedig ar allu'r ysgol i ddarparu lle a chyfleusterau addas ar gyfer disgyblion ni ddylid mynd heibio'r terfyn hwnnw.

Mae'r ND yn berthnasol i'r grŵp oed y derbynnir y disgyblion iddo yn yr ysgol, ac mae'n gosod terfyn ar nifer y disgyblion y gellir eu derbyn. Yn y flwyddyn dderbyn arferol rhaid i'r Awdurdod Derbyn dderbyn disgyblion i fyny at eu Nifer Derbyn hyd nes y cyrhaeddir y ND. Os yw nifer y ceisiadau a dderbynnir am leoedd mewn ysgol yn fwy na'r ND bydd yr Awdurdod yn blaenoriaethu'r ceisiadau a dderbyniodd yn unol â'r meini prawf ar gyfer gormod o geisiadau a nodir yn y ddogfen hon.

Mewn amgylchiadau o'r fath mae'n bosib na fydd rhieni yn llwyddo cael lle i'w plentyn yn eu dewis ysgol.

Rhaid i lywodraethwyr ysgol a'r Cyngor gadw golwg gyson ar y ND.

2.4 DOSBARTHIAD YSGOLION

Mae pob ysgol yn Sir Gaerfyrddin yn cael eu dosbarthu'n ysgolion cydaddysgol yn yr ystyr eu bod yn darparu ar gyfer bechgyn a merched, ac oni nodir yn wahanol maent yn ysgolion dyddiol ac nid yn ysgolion preswyl.

Oni nodir yn wahanol, mae ysgolion uwchradd yn cael eu dosbarthu'n ysgolion cyfun.

2.5 GRWPIAU BLWYDDYN ERAILL

Bydd ceisiadau am leoedd i ddisgyblion mewn grwpiau blwyddyn yn wahanol i'r grŵp blwyddyn arferol yn seiliedig ar ddyddiad geni disgybl yn cael eu hystyried fesul un, a lle y mae hynny'n berthnasol yn ôl y meini prawf ar gyfer derbyn gormod o geisiadau a esbonnir yn y llyfryn hwn.

2.6 ADDYSG YN Y CARTREF

Gall rhieni ddewis hefyd addysgu eu plant gartref. Yr enw ar hyn yw Addysg Gartref Ddewisol. Mae'r penderfyniad i addysgu gartref yn fater y dylid meddwl yn ofalus amdano, gan ei fod yn gryn ymgymeriad o ran ymrwymiad, amser a chost.

Os ydych yn ystyried y dewis hwn awgrymir y dylech gysylltu â'r awdurdod lleol a gofyn am arweiniad gan y Swyddog Addysg Gartref Ddewisol ar 01267 246727.

2.7 AR BA OED ALL PLANT DDECHRAU'R YSGOL?

Plant Oed Blynyddoedd Cynnar – Plant 3 Oed (Rhan amser, 2 dymor yn unig)

Mae addysg Blynyddoedd Cynnar yn ddarpariaeth anstadudol sydd ar gael i blant 3 oed a bydd rhaid gwneud cais am le mewn ysgol, h.y. ar gyfer categorïau (i) a (ii) isod, i'r Awdurdod Derbyn erbyn yr **31ain o Ionawr, 2017** os yw eich plentyn i fod i ddechrau mewn darpariaeth oed meithrin mewn ysgol ym mis **Ionawr, Ebrill neu Medi 2018**.

Mae sawl math o ddarpariaeth:-

(i) Ysgol Feithrin – Ysgol Feithrin Rhydaman yw'r unig ysgol feithrin yn y sir.

(ii) Dosbarthiadau Blynyddoedd Cynnar mewn Ysgolion Babanod neu Cynradd.

(iii) Darpariaeth gan asiantaethau tu-allan i'r sector gynaledig sy'n bartneriaid yn y Grŵp Hawl Bore-Oes, mudiadau fel Cymdeithas Cylchoedd Chwarae Cyn-Ysgol Cymru, Mudiad Ysgolion Meithrin a darparwyr preifat. Gall y Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd Sir Gaerfyrddin eich cynorthwyo yn y broses hon. Mae'r manylion cyswllt a gwybodaeth y wefan ar gael o dan adran 5.

Mae hawl gan bob plentyn 3 blwydd oed gael lleoliad am ddim am 10 awr yr wythnos mewn sefydliad cofrestredig trwy'r Grŵp Hawl Bore-Oes o'r tymor yn dilyn ei trydydd penblwydd.

Derbynnir plant yn arferol i ddarpariaeth blynyddoedd cynnar ar sail rhan amser o'r tymor yn dilyn ei trydydd penblwydd fel a ganlyn:-

- yn Ionawr i'r rhai sy'n cael eu 3ydd penblwydd rhwng 1af Ionawr a 31ain Mawrth;
- yn Ebrill i'r rhai sy'n cael eu 3ydd penblwydd rhwng 1af Ebrill a 31ain Awst;
- ym Medi i'r rhai sy'n cael eu 3ydd penblwydd rhwng 1af Medi a 31ain Rhagfyr.

Nid oes gan rieni hawl i apêl os na chynigir lle i'w plentyn yn eu dewis lleoliad blynyddoedd cynnar. Ni fydd gan ddisgyblion sy'n cael eu derbyn i ddarpariaeth blynyddoedd cynnar neu feithrin mewn ysgol hawl 'awtomatig' i barhau i dderbyn eu haddysg yn nosbarth derbyn yr ysgol honno.

Rhaid gwneud cais ffurfiol i'r Awdurdod Derbyn i gael lle yn nosbarth derbyn yr ysgol yn gywir ar ddechrau'r tymor y mae ef/hi yn dathlu ei benblwydd/phenblwydd yn bedair oed.

Dylid cyflwyno ceisiadau am le i'r Cyngor erbyn 31ain Ionawr, 2017 os yw eich plentyn am ddechrau yn yr ysgol ym mis Ionawr, Ebrill neu Medi 2018.

Os bydd mwy o geisiadau na lleoedd ar gael, yna bydd y Cyngor yn blaenoriaethu ceisiadau yn unol â'i meini prawf gordanysgrifio a nodir yn y ddogfen hon.

Lle mae'n ymarferol mae'r Cyngor yn caniatáu i ddarparwyr heb gael eu cynnal ddefnyddio adeiladau ysgol ac mae nifer yn manteisio ar y cyfryw gyfleuster.

Addysg Amser Llawn – Plant 4 & 5 Oed

Lle nad oes darpariaeth blynyddoedd cynnar mewn lleoliad wedi'i gynnal, wedi i gais gael ei gymeradwyo, mae plant yn cael eu derbyn yn llawn amser ar yr amseroedd canlynol:

- ym Medi i'r rhai sy'n cael eu 4ydd penblwydd rhwng 1af Medi a 31ain Rhagfyr;
- yn Ionawr i'r rhai sy'n cael eu 4ydd penblwydd rhwng 1af Ionawr a 31ain Mawrth;
- yn Ebrill i'r rhai sy'n cael eu 4ydd penblwydd rhwng 1af Ebrill a 31ain Awst.

Yn ôl y gyfraith rhaid i rieni drefnu bod eu plant yn cael addysg llawn amser ar ddechrau'r tymhorau canlynol:-

- Tymor yr Hydref ar gyfer y rhai sy'n 5 mlwydd oed rhwng 1af Ebrill a 31ain Awst;
- Tymor y Gwanwyn ar gyfer y rhai sy'n 5 mlwydd oed rhwng 1af Medi a 31ain Rhagfyr; a
- Tymor yr Haf ar gyfer y rhai sy'n 5 mlwydd oed rhwng 1af Ionawr a 31ain Mawrth.

Nid yw'r gyfraith yn mynnu bod plentyn yn dechrau'r ysgol tan y tymor sy'n dilyn pumed penblwydd y plentyn.

Gall rhiant ohirio dyddiad derbyn plentyn i'r ysgol tan ddechrau'r tymor sy'n dilyn pumed penblwydd y plentyn cyhyd a bod y dyddiad hwnnw o fewn yr un flwyddyn ysgol.

Yn unol â Deddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998 gosodir terfyn o 30 o ddisgyblion ar ddosbarthiadau Derbyn, Blwyddyn 1 a Blwyddyn 2.

Dylid cyflwyno ceisiadau am le i'r Cyngor erbyn yr 31ain Ionawr, 2017 os fydd plentyn yn dechrau ysgol ym Medi 2017, Ionawr neu Ebrill 2018.

Os bydd mwy o geisiadau na lleoedd ar gael, yna bydd y Cyngor yn blaenoriaethu ceisiadau yn unol â'i meini prawf gordanysgrifio a nodir yn y ddogfen hon.

Derbyn i Ysgol Iau o Ysgol Plant Bach

Pan mae plant sy'n mynychu ysgol Plant Bach eisiau mynd ymlaen i ysgol Iau yn y mis Medi yn dilyn eu 7fed penblwydd (h.y. byddant wedi cael eu 7fed penblwydd ar/neu cyn y 31ain Awst) mae angen i'r rhiant/gofalwr gyflwyno cais i'r Cyngor.

Nid oes unrhyw drefniant trosglwyddo awtomatig nac unrhyw hawl awtomatig i symud o'r ysgol Plant Bach i'r ysgol Iau.

Dylid cyflwyno ceisiadau am le i'r Cyngor erbyn **31ain Ionawr, 2017**, i gael mynediad i ysgol ym **mis Medi 2017**.

Os bydd mwy o geisiadau na lleoedd ar gael, yna bydd yr Awdurdod yn blaenoriaethu ceisiadau yn unol â'i meini prawf gordanysgrifio a nodir yn y ddogfen hon.

2.8 PROSES GWNEUD CAIS

Yr Angen i Wneud Cais

Mae'n rhaid i riant/gofalwr gyflwyno cais ar gyfer derbyn disgybl i ysgol i'r Cyngor neu, ar gyfer Ysgolion Gwirfoddol a Gynorthwyir, dylid gwneud ceisiadau i'r Corff Llywodraethu.

Bydd y ffurflen gais yn gofyn i riant/gofalwr restru'r dewis o ysgol yn ôl y dewis 1af, yr 2il ddewis a'r 3ydd dewis. Gweler Atodiad A i gael rhagor o wybodaeth.

Cewch wybod gan yr Awdurdod Derbyn a fu'r cais yn llwyddiannus ai peidio. Mae hyn yn cynnwys ceisiadau a wneir ar ran plentyn mewn gofal gan riant corfforaethol os mai'r Cyngor yw'r rhiant corfforaethol a'r Awdurdod Derbyn.

Ni all unrhyw Ysgol Gymunedol nac Ysgol Wirfoddol Reoledig awdurdodi derbyn disgybl.

Sut i Wneud Cais

Wedi i'r rhiant/gofalwr benderfynu i ba ysgol y maent am ddanfon eu plentyn/plant dylent gyflwyno cais i'r Awdurdod Derbyn priodol.

Ar gyfer ysgolion Cymunedol a Gwirfoddol Rheoledig gellir gwneud hyn:-

- yn uniongyrchol arlein trwy ddefnyddio gwefan yr Awdurdod Lleol yn www.sirgar.llyw.cymru;
- trwy gysylltu â'r ysgol; neu
- trwy gysylltu â'r Tîm Derbyniadau yn yr Adran Addysg a Phlant, Adeilad 2, Parc Dewi Sant, Heol Ffynnon Job, Caerfyrddin, SA31 3HB.

Ysgol Gwirfoddol Gymorthedig

- Gwneud Cais yn uniongyrchol i'r ysgol
- Cais ar lein ar hyd wefan Cyngor Sir Caerfyrddin.

Cyn gwneud cais argymhellir fod rhieni'n cysylltu â'u dewis ysgol yn uniongyrchol. Bydd gan yr ysgol fap o'i dalgylch a gall gynorthwyo rhieni trwy ddarparu gwybodaeth arall am yr ysgol a'r trefniadau derbyn.

Pryd i Wneud Cais – Dyddiad Cau y Cylch Gwneud Cais

Dyma'r dyddiadau cau perthnasol:-

Dyddiad Cau: 31ain Ionawr, 2017 ar gyfer Disgyblion Oed Meithrin sy'n dechrau ym mis Ionawr, Ebrill neu Medi 2018.

Dyddiad Cau: 31ain Ionawr, 2017 ar gyfer disgyblion pedair oed sy'n dechrau ym mis Medi 2017, Ionawr neu Ebrill, 2018.

Dyddiad Cau: 31ain Ionawr, 2017 ar gyfer disgyblion sy'n symud o Ysgol Fabanod i Ysgol Iau ym mis Medi, 2017.

Dyddiad Cau: 16eg Rhagfyr, 2016, ar gyfer disgyblion sy'n dechrau mewn Ysgol Uwchradd ym mis Medi 2017.

Gall gwneud cais hwyr olygu fod eich plentyn yn colli blaenoriaeth am le yn eich dewis ysgol.

Ein bwriad yw i gyhoeddi llythyron penderfyniad ynglŷn a'r ceisiadau **Ysgolion Uwchradd** ar yr **1af Mawrth, 2017** ac ar yr **18eg Ebrill, 2017** ar gyfer ceisiadau **Ysgolion Gynradd.**

Llenwi'r Ffurflen Gais

Cyfeiriad Cartref

Bernir mai cyfeiriad cartref plentyn yw eiddo preswyl sydd yn yn unig neu'n brif breswlyfa'r plentyn, ac sydd naill ai'n:-

- Eiddo i riant/rhieni'r plentyn neu i berson a chanddo gyfrifoldeb rhianta cyfreithiol penodedig am y plentyn; neu'n
- Cael ei lesio neu ei rentu i riant/rhieni'r plentyn neu i berson a chanddo gyfrifoldeb rhianta o dan gytundeb rhentu ysgrifenedig, a lofnodwyd gan y landlord a'r tenant, sy'n parhau am o leiaf chwe mis.

Prawf Cyfeiriad

Mae'r Awdurdod yn cadw'r hawl i ofyn am brawf o gyfeiriad ar yr adeg y cynigir lle i'r plentyn.

Er mwyn i'r cais gael ei ystyried fel rhan o'r cylch derbyn arferol bydd angen ichi ddarparu prawf eich bod yn byw yn y cyfeiriad a roddwyd ar y ffurflen gais erbyn y dyddiad a roddwyd ar gyfer derbyn ceisiadau, sef fel arfer yr 31ain Ionawr yn y flwyddyn cyn i'r plentyn ddechrau ysgol.

Bydd yr Awdurdod yn ystyried unrhyw ddwy o'r dogfennau canlynol yn ddefnyddiol wrth benderfynu a ydych yn byw mewn cyfeiriad penodol:-

(a) Bil Treth Cyngor neu Fudd-dal Tai gwreiddiol neu lythyr hysbysu nad yw'n fwy na 12 mis oed;

(b) Bil cyfleustod gwreiddiol (nad yw'n fwy na 3 mis oed);

(c) Llythyr dyfarnu gwreiddiol ar gyfer Budd-dal Plant neu Gredyd Treth Plant neu lythyr dyfarnu Credyd Treth Gwaith (nad yw'n fwy na thri mis oed ac sy'n dangos enw'r plentyn/plant);

(ch) Cytundeb tenantiaeth/les wedi'i lofnodi a'i ddyddio sy'n parhau am o leiaf chwe mis ond heb fod iddo lai na mis i fynd;

(d) Datganiad cerdyn credyd neu fanc gwreiddiol yn dangos y cyfeiriad (nad yw'n fwy na mis oed);

(dd) Cadarnhad ysgrifenedig gan Fanc neu Gymdeithas Adeiladu'r ymgeisydd yn cadarnhau manylion y newid cyfeiriad ac ar ba ddyddiad y digwyddodd y newid;

(e) Trwydded yrru llun adnabod gyfredol ddilys.

Fel rhan o'r broses derbyn mae angen i chi ddarparu prawf o'ch cyfeiriad mewn cysylltiad â'ch cais. Bydd yr Awdurdod yn ceisio gwirio'r wybodaeth a ddarparwyd a cadw'r hawl hefyd i fynnu fod yr ymgeisydd yn darparu unrhyw wybodaeth ychwanegol mae'n ei hystyried yn angenrheidiol i gadarnhau'r breswyliaeth neu'n cymryd camau rhesymol i benderfynu a yw cais yn dwyllodrus ai peidio.

Os cynigir lle ysgol ar sail cyfeiriad y darganfyddir yn ddiweddarach ei fod yn wahanol i gyfeiriad arferol a pharhaol y plentyn, gellir tynnu'r lle yn ôl.

Os cynigir lle ysgol ac os yw rhiant neu berson a chanddo gyfrifoldeb rhianta cyfreithiol am blentyn yn wybyddus ac yn fodlon yn darparu datganiad ffug, a fyddai'n effeithio llwyddiant eu cais, gellir tynnu'r lle yn ôl.

Os na ddarperir prawf preswylfa ni fydd yr Awdurdod yn gallu prosesu'r cais a gellir rhoi'r lle i blentyn arall.

Symud Preswylfa / Newid Cyfeiriad

Os ydych yn bwriadu newid preswylfa ac yn gwneud cais am le i ysgol yn seiliedig ar y cyfeiriad newydd bydd y Cyngor yn cymryd camau i wirio'r trefniadau. Bydd y Cyngor hefyd yn derbyn llythyr cyfreithiwr yn datgan y cyfnewidiwyd contractau ac yn nodi'r dyddiad cwblhau neu gytundeb tenantiaeth wedi'i lofnodi a'i ddyddio a nodwyd yn (ch) uchod. Os na allwch ddarparu prawf cyfeiriad erbyn y dyddiad a roddwyd ar gyfer derbyn ceisiadau bydd eich cais yn seiliedig ar eich cyfeiriad presennol.

Rhannu Cyfrifoldeb

Pan fod y cyfrifoldeb am y plentyn yn cael ei rannu, a phan mae'r plentyn yn byw gyda'r ddau riant, neu bersonau a chanddynt gyfrifoldeb rhianta cyfreithiol penodedig am y plentyn, am ran o'r wythnos, y brif breswylfa fydd y cyfeiriad y mae'r plentyn yn byw ynddo am y rhan fwyaf o'r wythnos ysgol.

Gellir gofyn i rieni ddarparu tystiolaeth ddogfennol i gefnogi'r cyfeiriad a ddefnyddir wrth gynnig lle.

Ceisiadau Cynnar

Sylwer na ellir defnyddio cais cynnar yn faen prawf ar gyfer rhoi blaenoriaeth wrth ddyrannu lleoedd.

Ceisiadau Hwyr

Ni fydd ceisiadau a dderbyniwyd ar ôl y dyddiad cau ar gyfer derbyniadau yn cael eu hystyried nes y dyfarnwyd y rhai a dderbyniwyd cyn y dyddiad cau.

Ysgolion Dau Safle

Os cyflwynir cais ar gyfer derbyn i ysgol sy'n gweithredu ar fwy nag un safle, bydd yr Awdurdod yn cymeradwyo derbyn i'r ysgol ac nid i safle penodol. Yr ysgol fydd yn penderfynu pa safle fydd y plentyn yn ei fynychu.

Rhestr Aros

Pan na fu modd derbyn disgybl i ysgol oherwydd y derbyniwyd gormod o geisiadau, bydd yr Awdurdod yn cynnig cadw'r cais yn y ffeil tan **30ain Medi, 2017**, gan greu "rhestr aros".

Os daw lleoedd ar gael fe'u dyfernir yn unol â'r meini prawf ar gyfer derbyn gormod o geisiadau a nodwyd ac nid yn unol â'r amser mae'r cais wedi bod ar y rhestr aros.

Bydd y rhestr aros yn dod i ben ar 30ain, Medi, 2017 a dylid nodi bod yn rhaid i geisiadau newydd gael eu cyflwyno o'r 1af Hydref, 2017 os ydych dal yn dymuno i'ch plentyn gael ei (h)ystyried am le yn yr ysgol.

Hysbysiad am Gynnig o le i ddisgybl mewn Ysgol

Bydd rhieni'n cael eu hysbysu trwy lythyr neu e-bost yn cadarnhau, neu fel arall, fod lle ar gael yn yr ysgol ac yn cynnig iddynt y cyfle i dderbyn y lle.

Ynghyd â'r "llythyr cynnig" fe fydd ffurflen dderbyn sydd yn gofyn ichi gadarnhau i'r Awdurdod eich bod yn derbyn lle yn yr ysgol. **Rhaid dychwelyd** y ffurflen wedi'i chwbwlhau i'r Cyngor **neu mi all y lle cael ei golli a'i gynnig i blentyn arall.**

Pan wnaed cais am le mewn dwy ysgol neu ragor ac y derbyniwyd cynnig o le yn un o'r ysgolion bydd yr Awdurdod, oni chaiff wybodaeth wahanol, yn barnu fod y cais am le yn yr ysgol(ion) arall wedi cael ei wrthod gan y rhieni a bydd felly'n cael ei gynnig i ymgeisydd arall.

Ein bwriad yw i gyhoeddi llythyron penderfyniad ynglŷn a'r ceisiadau **Ysgolion Uwchradd** ar **1af Mawrth, 2017** ac ar **18eg Ebrill, 2017** ar gyfer ceisiadau **Ysgolion Cynradd.**

Tynnu Cynnig o Le yn Ôl

Tynnir cynnig o le ysgol yn ôl os:

(i) darganfyddir yn ddiweddarach y cafodd cais twyllodrus neu fwriadol gamarweiniol ei gyflwyno (e.e. honni ar gam preswylio mewn dalgylch ysgol); neu

(ii) nad yw'r ffurflen dderbyn a ddanfonir gyda'r llythyr cynnig yn cael ei danfon yn ôl at yr Awdurdod Derbyn erbyn y dyddiad a nodir ar y llythyr. Gall y Cyngor dynnu'r lle yn ôl a gellir rhoi'r lle i blentyn arall.

Derbyn Disgyblion i Ysgolion ar adegau eraill o'r flwyddyn

Bydd rhieni/gofalwyr sydd eisiau gwneud cais am le i'w plentyn mewn ysgol yn ystod y flwyddyn academaidd yn dal i orfod llanw a chyflwyno ffurflen gais i'r Awdurdod Derbyn.

Bydd ceisiadau'n cael eu hystyried wrth iddynt gael eu derbyn yn unol â'r trefniadau a'r polisïau derbyn a nodir yn y ddogfen hon gan gynnwys y meini prawf ar gyfer gormod o geisiadau os aethpwyd heibio'r nifer derbyn.

Plant Sipsiwn a Theithwyr

Mae gan y Cyngor gyfrifoldeb statudol i sicrhau bod pob plentyn oed ysgol gorfodol yn derbyn addysg sy'n gweddu i'w hoed, galluoedd ac unrhyw anghenion addysgol arbennig, ac sy'n hyrwyddo safonau uchel o ran darparu addysg a lles plant. Mae'r cyfrifoldebau hyn yn berthnasol i bob plentyn, boed yn preswylio'n barhaol yn yr ardal ai peidio. Felly, bydd ceisiadau am leoedd ysgol ar gyfer teuluoedd sipsiwn a theithwyr yn cael eu trin gyda'r bwriad o roi'r plant hyn mor gyflym ag y bo modd yn yr ysgol agosaf a mwyaf addas sydd ar gael.

2.9 DERBYN I YSGOLION UWCHRADD GAN GYNNWYS CHWECHED DOSBARTH

Mae'n ofynnol i blant ysgol gynradd ddechrau mynychu ysgol uwchradd yn y mis Medi yn dilyn pen-blwydd y plentyn yn 11 oed.

Fel rhan o'r broses gwneud cais, bydd y Cyngor yn anfon pecyn gwybodaeth a ffurflen gais at rieni plant sydd yn eu blwyddyn olaf yn yr ysgol gynradd.

Mae'n bwysig ichi ddychwelyd y ffurflen erbyn y **dyddiad cau h.y. 16eg Rhagfyr, 2016**, gan mai'r ceisiadau hynny gaiff eu **hystyried yn gyntaf** am unrhyw leoedd sydd ar gael.

Ni fydd ceisiadau sy'n dod i law **ar ôl y dyddiad cau** yn cael eu hystyried hyd nes y bydd lleoedd wedi cael eu dyrannu i'r ceisiadau hynny a ddaeth i law cyn y dyddiad cau.

Er nad yw'n sicrhau lle mewn ysgol mae'r meini prawf o ran derbyn plant yn rhoi blaenoriaeth uwch i ddisgyblion sy'n byw yn nalgylch dynodedig ysgol uwchradd. **Felly nid yw'r ysgol gynradd y mae'r disgybl yn ei mynychu yn fater sy'n cael ei ystyried.**

Nodir yr ysgol(ion) dalgylch dynodedig ar y ffurflen. Y ddwy ysgol fydd yr ysgol uwchradd leol a'r ysgol uwchradd ddwyieithog ar gyfer yr ardal a **bydd hyn yn seiliedig ar gyfeiriad cartref y plentyn ac nid ar yr ysgol gynradd y mae'r plentyn yn ei mynychu.** Bydd Ysgol y Sant Ioan Llwyd yn cael ei chynnig yn ddewis ffydd ar gyfer y rhannau hynny o'r Sir a wasanaethir gan yr ysgol hon.

Fodd bynnag, os ydych am wneud cais am le mewn ysgol nad yw'n un o'r ysgolion dalgylch dynodedig a enwir yn y llythyr cynnig mae adran wahanol yn y ffurflen gais y dylech ei defnyddio. Gofynnir ichi ddilyn y canllawiau a roddir, llenwi'r ffurflen yn unol â hynny a darllen yr adran yn y llyfryn hwn yn ymwneud â dewisiadau rhieni a chludiant ysgol i sicrhau eich bod yn deall eich ymrwymiadau mewn amgylchiadau o'r fath.

Crynodeb- ar gyfer Ysgolion Uwchradd Cymunedol a Gwirfoddol Rheoledig

- Nid yw plant yn trosglwyddo'n awtomatig o ysgol gynradd i ysgol uwchradd.
- Yn ôl y gyfraith mae'n rhaid ichi wneud cais i'r Cyngor am le.
- **Y dyddiad cau ar gyfer gwneud cais yw 16eg Rhagfyr, 2016.**
- Ni roddir ystyriaeth i'r ysgol gynradd y mae'r plentyn yn ei fynychu pan fyddwn yn dyrannu llefydd. Y cyfeiriad cartref fydd yn cael ei ystyried.
- Nid oes modd i unrhyw unigolyn neu sefydliad sicrhau lle i blentyn mewn ysgol ymlaen llaw. Rhaid diystyru unrhyw sylwadau neu sicrwydd o'r fath.
- Bydd angen ichi aros hyd nes y cewch lythyr gan y Cyngor yn eich cynghori os yw eich cais wedi cael ei gymeradwyo neu ei wrthod.
- Ni chaiff plentyn ddechrau yn yr ysgol hyd nes bod y rhiant/gwarcheidwad wedi cadarnhau gyda'r Cyngor ei bod yn derbyn y cynnig o le.

Mae'n rhaid i'r ffurflenni, wedi eu cwblhau'n llawn, gael eu dychwelyd at Bennaeth ysgol gynradd y plentyn erbyn 16eg Rhagfyr, 2016. Os na fydd y ffurflen yn cael ei dychwelyd erbyn y dyddiad cau mae'r gobaith o gael lle yn yr ysgol a ffefrir yn llai, felly hefyd y posibilrwydd o gael cludiant i'r ysgol am ddim.

Ein bwriad yw cyhoeddi llythyrau penderfyniad ynghylch y ceisiadau hyn erbyn **1af Mawrth, 2017**.

Dylai rhieni sy'n dymuno i'w plentyn gael ei d(d)erbyn i ysgol uwchradd ar adeg sy'n wahanol i amser arferol derbyn disgyblion blwyddyn 7 (trosglwyddo o ysgol gynradd i ysgol uwchradd) gysylltu a thrafod y mater yn y lle cyntaf â Phennaeth yr ysgol a fydd hefyd yn gallu rhoi cyngor ar wneud cais am le. Gellir gofyn hefyd am gyngor gan y Tîm Derbyniadau yn yr Adran Addysg a Phlant.

Derbyn i Chweched Dosbarth

Dylid trafod trefniadau ar gyfer derbyn disgyblion i Chweched Dosbarth Ysgolion Cymunedol â'r ysgol unigol cyn gwneud cais am le.

2.10 NEWID YSGOLION

Mae newid ysgol yn gofyn am ystyriaeth ddifrifol a dylid ei drafod yn llawn gyda phennaeth ysgol bresennol eich plentyn yn y lle cyntaf. Bydd yr Adran Addysg a Phlant hefyd yn darparu cyngor os oes angen.

Ar ol trafod, os ydych yn dymuno trosglwyddo eich plentyn o un ysgol i'r llall bydd rhaid i chi gwblhau ffurflen gais derbyn plant i ysgol sydd ar gael ar wefan y Cyngor (www.sirgar.llyw.cymru).

Bydd y Cyngor yn rhoi ystyriaeth i ganiatáu newid ysgol yn unol â'r broses derbyn a'r meini prawf a nodwyd yn 3. isod.

2.11 YSTYRIED DERBYNIADAU I YSGOLION UWCHRADD

Ar gyfer y broses dderbyn ar gyfer ysgolion uwchradd dylid cofio y bydd yr adrannau canlynol a nodir yn 2.8 uchod hefyd yn berthnasol:-

- Cyfeiriad Cartref
- Prawf Cyfeiriad
- Symud Preswylfa/Newid Cyfeiriad
- Rhannu Cyfrifoldeb
- Ceisiadau Cynnar
- Ceisiadau Hwyr
- Rhestri Aros
- Tynnu Cynnig o Le yn Ôl
- Plant Sipsiwn a Theithwyr

3. Y MEINI PRAWF YNGHYLCH GOR-ALW O RAN DERBYN DISGYBLION I YSGOLION CYMUNEDOL AC YSGOLION MEITHRIN, CYNRADD AC UWCHRADD GWIRFODDOL A REOLIR

Os oes mwy o geisiadau am dderbyniadau na lleoedd ar gael mewn ysgol benodol cynigir lleoedd yn unol â'r meini prawf canlynol a restrir yn nhrefn blaenoriaeth:

1. Plant sy'n derbyn gofal a phlant oedd yn arfer derbyn gofal.

2. Plant sy'n byw yn nalgylch yr ysgol ac sydd â brawd/chwaer neu frodyr/chwiorydd wedi'u cofrestru yn yr ysgol pan fydd y plentyn yn cael ei (d)derbyn i'r ysgol.

3. Plant sy'n byw yn nalgylch yr ysgol ond nad oes ganddynt frawd/chwaer neu frodyr/chwiorydd wedi'u cofrestru yn yr ysgol pan fydd y plentyn yn cael ei (d)derbyn i'r ysgol.

4. Plant sy'n byw y tu allan i ddalgylch yr ysgol ac sydd â brawd/chwaer neu frodyr/ chwiorydd wedi'u cofrestru yn yr ysgol pan fydd y plentyn yn cael ei (d)derbyn i'r ysgol.

5. Plant sy'n byw y tu allan i ddalgylch yr ysgol ond nad oes ganddynt frawd/chwaer neu frodyr/chwiorydd wedi'u cofrestru yn yr ysgol pan fydd y plentyn yn cael ei (d)derbyn i'r ysgol.

D.S. Pan fo Datganiad Anghenion Addysgol yn enwi ysgol benodol mae'n rhaid datgan hynny'n glir ar y ffurflen gais. Mi fydd y Cyngor yn ymdrin â cheisiadau o'r fath cyn ystyried ceisidau eraill a chyn blaenoriaethu ceisidau yn unol â'r meini prawf gor-alw am lefydd mewn ysgol.

NODIADAU

Ym mhob un o'r categorïau uchod:

a) Y Meini Prawf o ran Pellter

Defnyddir y pellter o'r cartref i'r ysgol yn faen prawf ar gyfer penderfynu blaenoriaeth, a rhoddir blaenoriaeth a lle yn yr ysgol i'r sawl sy'n byw agosaf at yr ysgol dros y sawl sy'n byw ymhellach i ffwrdd. Mesurir y pellter ar yr un sail a gan ddefnyddio'r un meini prawf a ddefnyddir ar gyfer asesu cymhwysedd ar gyfer cludiant ysgol rhad ac am ddim h.y. mesurir y pellter o'r cartref i'r ysgol ar hyd "y llwybr cerdded byrraf sydd ar gael, â chyfeiliant lle bo angen" rhwng y fynedfa agosaf / giât blaen y cartref a mynediad/giât agosaf yr ysgol.

Mi fydd y mesuriadau a ddefnyddir wedi selio ar Google Earth – mesuriadau cerdded.

(b) Brodyr a Chwiorydd

Bydd plant yn cael eu hystyried yn frodyr neu'n chwiorydd os ydynt yn:-

- yn frodyr neu'n chwiorydd llawn neu'n llysfrodyr neu'n llyschwiorydd;
- yn frodyr neu'n chwiorydd trwy fabwysiad/maethiad.

(c) Plant Genedigaeth Luosog

O dan unrhyw amgylchiadau pan fydd un lle ar gael a phan fydd y plant cymwys nesaf yn efeilliaid/tripledi bydd yr Awdurdod Lleol yn derbyn y ddau / y ddwy / yr holl blant.

(d) Plant Aelodau Lluoedd Arfog y Deyrnas Unedig

Bydd plant Aelodau Lluoedd Arfog y Deyrnas Unedig yn cael eu trin fel pe baent o fewn y dalgylch os yw eu ffurflen gais yn cynnwys llythyr swyddogol gan y Weinyddiaeth Amddiffyn yn nodi dyddiad dychwelyd pendant a chadarnhad o'r cyfeiriad newydd o fewn y dalgylch.

4. APELIADAU YN YMWNEUD Â DERBYN DISGYBLION I YSGOLION CYMUNEDOL/YSGOLION GWIRFODDOL RHEOLEDIG CYNRADD NEU UWCHRADD

Pe bai rhieni yn aflwyddiannus wrth sicrhau lle ar gyfer eu plentyn yn yr ysgol o'u dewis, fe'u hysbysir yn ysgrifenedig o'r rheswm/rhesymau pam ac hefyd am eu hawl i apelio yn erbyn y penderfyniad a'r broses o wneud hynny.

Ar gyfer Ysgolion Cymunedol ac Ysgolion Gwirfoddol Rheoledig bydd y Cyngor yn gwneud trefniadau i sefydlu Pwyllgor Apêl Annibynnol i ystyried apeliadau. Cynhelir y broses apeliadau yn unol â Chôd Ymarfer Apeliadau Derbyniadau Ysgol Llywodraeth Cymru.

Nid oes hawl i apelio yn achos gwrthod caniatâd ar gyfer darpariaeth Blynyddoedd Cynnar.

Cynhelir apeliadau yn breifat, heblaw bod y corff neu'r cyrff sy'n gyfrifol am drefnu'r apêl yn rhoi cyfarwyddiadau i'r gwrthwyneb, ond bydd rhieni yn cael cyfle i gyflwyno'u hachos naill ai'n uniongyrchol neu gyda chymorth cynrychiolydd o'u dewis hwy. Bydd y Clerc yn hysbysu pob parti o benderfyniad y Panel, a fydd yn ymrwymo'r Cyngor, y Corff Llywodraethol a'r rhieni.

Rhaid i rieni gyflwyno apêl yn erbyn gwrthod lle mewn Ysgol Gymunedol neu Wirfoddol Reoledig yn ysgrifenedig i Gwasanaethau Democrataidd, Adran y Prif Weithredwr, Neuadd y Sir, Caerfyrddin, SA31 1JP.

Cyflwr Meddygol

Pan fydd angen Tystiolaeth Feddygol bydd angen ichi ddarparu copïau o adroddiadau yn ymwneud â'r diagnosis gan yr Ymgynghorydd a/neu Arbenigwr perthnasol.

Bydd gan Ysgolion Gwirfoddol a Gynorthwyir eu trefniadau eu hunain ar gyfer gwrando ar apeliadau yn annibynnol.

Ysgolion Cymunedol A Wirfoddol Rheoledig- Amserlen Ceisiadau

Darpariaeth	Oedran	Dechrau Ysgol	Dyddiad cau am Geisiadau	Dyddiad Llythyron Cynnig Llefydd	Dyddiadau Cau am Apeliadau
Addysg Plant 3 Oed (Rhan amser, 2 dymor yn unig*)	**3ydd Pen-blwydd** 1af Medi 2014 hyd at 31ain Awst, 2015	Ionawr, Ebrill neu Fedi 2018	**31ain Ionawr, 2017**		**Dim Hawl i Apêl**
Addysg Plant 4 Oed (Llawn amser) (Mae rhaid gwneud cais ar wahan am fynediad i blentyn 4 oed i ddosbarth llawn amser mewn ysgol – does yna ddim hawl awtomatig idrosglwyddo o'r ddarpariaeth oedran Meithrin.)	**4 ydd Pen-blwydd** 1af Medi, 2013 hyd at 31ain Awst, 2014	Medi 2017, Ionawr neu Ebrill 2018	**31ain Ionawr 2017**	**18eg Ebrill, 2017**	**30ain Mai, 2017**
Ysgol Uwchradd (Plant o ysgolion cynradd yn dechrau ym mlwyddyn 7 yn yr Uwchradd)	**11eg Pen-blwydd** 1af Medi, 2005 hyd at 31ain Awst, 2006	Medi 2017	**16eg Rhagfyr, 2016 (i ddychwelyd y ffurflen)**	**1af Mawrth, 2017**	**11eg Ebrill, 2017**

*** Mae angen i chi gysylltu â'r ysgol i gadarnhau darpariaeth.**

Llofnodwyd ..... **Y Dyddiad: 15/04/16**

G Morgans, Prif Swyddog Addysg

Cyngor Sir Caerfyrddin
Newid Arfaethedig I'r Broses Derbyn I Ysgolion Ar Gyfer Blwyddyn Academaidd 2017-18 Ymlaen
Eglurhad O'r System Rhestru Yn Nhrefn Dewis

1. Bydd y rhieni yn gallu gwneud cais (ar-lein) am le mewn uchafswm o dair ysgol (noder: ar hyn o bryd gallant wneud cais am gynifer o ysgolion ag y dymunant).
2. Bydd rhaid i'r rhieni sy'n dewis 2 neu 3 ysgol eu rhestru yn ôl blaenoriaeth (h.y. dewis 1af, 2il ddewis a 3ydd dewis) (noder: ar hyn o bryd ni nodir dewis yn ôl blaenoriaeth).
3. Yn y man cyntaf, bydd pob cais yn cael yr un ystyriaeth, ond os bydd lle'n cael ei gynnig yn yr ysgol sy'n ddewis 1af (neu'n unig ddewis), ni fydd lleoedd yn cael eu cynnig yn yr ysgol sy'n 2il ddewis neu'n 3ydd dewis.
4. Bydd y meini prawf gor-alw yn aros yr un fath (gweler y llyfryn Gwybodaeth i Rieni 2016-17).
5. Wrth asesu'r ceisiadau, os nad oes lle ar gael yn yr ysgol sy'n ddewis 1af, a bod y cais hwnnw'n cael ei wrthod, cynigir lle yn yr ysgol sy'n 2il ddewis os oes lle ar gael yno. Byddai'r 3ydd dewis yn cael ei anwybyddu. Bydd y rhieni yn dal i fod â hawl i apelio yn erbyn y penderfyniad i beidio â chynnig lle yn yr ysgol sy'n ddewis 1af.
6. Wrth asesu'r ceisiadau, os nad oes lle ar gael yn yr ysgol sy'n ddewis 1af neu'n 2il ddewis, bydd y ddau gais yn cael eu gwrthod a chynigir lle yn yr ysgol sy'n 3ydd dewis os oes lle ar gael yno. Bydd y rhieni yn dal i fod â hawl i apelio yn erbyn y penderfyniad i beidio â chynnig lle yn yr ysgolion sy'n ddewis 1af neu'n 2il ddewis.
7. Os caiff pob cais ei wrthod (naill ai 1, 2 neu 3 ysgol), bydd gan y rhieni hawl i apelio ar gyfer y 3 ysgol. Bydd llythyr unigol yn egluro canlyniad y cais/ceisiadau yn cael ei anfon at y rhieni.

Ysgolion Cynradd Cymuned 3-11

Rhif Adran Addysg	Enw'r Ysgol	Ystod Oed	Capasiti	Categori Iaith	NDC
1000	Meithrin Rhydaman	3-5	95	WM	31
2043	Betws	3-11	118	TR	14
2374	Bigyn	3-11	240	EM	30
2389	Bro Brynach	3-11	120	WM	15
2120	Bryn	3-11	255	EM	30
2390	Bryn Teg	3-11	238	EM	30
2169	Brynaman	3-11	260	WM	32
2168	Brynsierfel	3-11	243	WM	30
2394	Gymunedol Porth Tywyn	3-11	240	EM	30
2121	Bynea	3-11	157	EM	19
TBC	Plant Bach Copperworks Lakefield (Delta School) * iii	3-11	480	DS	60
2008	Cross Hands	3-11	168	WM	19
2123	Dafen	3-11	163	EM	20
2371	Dewi Sant	3-11	419	WM	60
2135	Ffwrnes	3-11	480	WM	60
2384	Griffith Jones	3-11	337	DS	42
2370	Gwenllian	3-11	140	WM	17
2188	Halfway	3-11	240	EM	30
2114	Tre-ioan	3-11	416	EM	53
2185	Llandeilo	3-11	253	EM	30
2181	Llandybie	3-11	238	DS	28
2009	Llan-gain	3-11	61	WM	7
2173	Llangynnwr	3-11	301	DS	37
2393	Maes y Morfa	3-11	240	EM	30
2171	Myrddin	3-11	105	EM	13
2194	Nantgaredig	3-11	232	WM	28
2178	Pen-bre	3-11	240	EM	30
2190	Pen-y-gaer	3-11	233	EM	29
2189	Pwll	3-11	114	EM	14
2380	Parc Waun-dew	3-11	214	EM	26
2375	Stebonheath	3-11	325	EM	40
2183	Teilo Sant	3-11	210	WM	30
2175	Trimsaran	3-11	240	DS	30
2388	Y Bedol	3-11	396	WM	53
2192	Y Castell	3-11	244	EM	30
2116	Y Dderwen	3-11	361	WM	45

Ysgolion Cynradd Gwirfoddol Cymorthedig

Rhif Adran Addysg	Enw'r Ysgol	Ystod Oed	Capasiti	Categori Iaith	NDC
3322	Model	3-11	485	EM	60
3301	St. Mary's, Carmarthen	3-11	166	EM	20
3300	St. Mary's, Llanelli	3-11	213	EW	26

Ysgolion Cynradd Cymuned

Rhif Adran Addysg	Enw'r Ysgol	Ystod Oed	Capasiti Oedran Meithrin (i)	Capasiti Darbyn ac i fyny (ii)	Cyfanswm o Capasiti yr Ysgol = (i)+(ii)	ND/Derbyn yr Ysgol am bob ystod oedran	Categori Iaith
2170	Abernant	4-11	6	46	52	6	WM
2018	Bancffosfelen	4-11	12	86	98	12	WM
2034	Bancyfelin	4-11	8	56	64	8	WM
2180	Beca	4-11	9	72	81	10	WM
2052	Blaenau	4-11	12	87	99	12	WM
2392	Bro Banw	4-11	28	495	523	M/N = 28 KS 1 and KS 2 = 70	DS
2104	Brynsaron	4-11	14	117	131	16	WM
2387	Cae'r Felin	4-11	13	96	109	13	WM
2386	Carreg Hirfaen	4-11	0	160	160	22	WM
2020	Carwe	4-11	13	111	124	15	WM
2000	Cefneithin	4-11	12	85	97	12	WM
2067	Cwrt-henri	4-11	6	48	54	6	WM
2187	Cynwyl Elfed	4-11	11	83	94	11	WM
2001	Dre-fach	4-11	10	71	81	10	WM
2061	Ffair-fach	4-11	12	90	102	12	WM
2128	Pump-hewl	4-11	11	90	101	12	WM
2007	Gors-las	4-11	13	97	110	13	WM
2019	Gwynfryn	4-11	11	85	96	12	WM
2182	Hafodwenog	4-11	10	76	86	10	WM
2131	Hendy	4-11	19	174	193	24	DS
2057	Llanedi	4-11	5	39	44	5	EW
2080	Llangadog	4-11	12	104	116	14	WM

Ysgolion Cynradd Cymuned

Rhif Adran Addysg	Enw'r Ysgol	Ystod Oed	Oedran Meithrin	Capasiti Darbyn ac i fyny	Cyfanswm o Capasiti yr Ysgol	ND/Derbyn yr Ysgol am bob ystod oedran	Categori Iaith
2130	Iau Llangennech *i	7-11	-	240	240	60	DS
2129	Plant Bach Llangennech *i	4-7	39	182	221	60	DS
2119	Llanmiloe	4-11	6	59	65	8	EW
2167	Llan-non	4-11	9	82	91	11	WM
2109	Llanpumsaint	4-11	5	45	50	6	WM
2082	Llansadwrn *ii	4-11	5	42	47	6	WM
2166	Llansteffan	4-11	6	56	62	8	WM
2087	Llanwrda *ii	4-11	7	53	60	7	WM
2184	Llanybydder	4-11	10	90	100	12	WM
2003	Llechyfedach	4-11	17	129	146	18	WM
2098	Llys Hywel	4-11	24	140	164	20	DS
2002	Maesybont	4-11	5	39	44	5	WM
2037	Meidrim	4-11	6	48	54	6	WM
2112	Mynyddygarreg	4-11	6	49	55	7	WM
2159	Hen Heol	4-11	30	210	240	30	EM
2050	Parc-yr-hun	4-11	27	194	221	27	DS
2177	Parc Y Tywyn	4-11	40	283	323	40	WM
2014	Peniel	4-11	15	105	120	15	WM
2193	Pen-y-groes	4-11	23	163	186	23	WM
2024	Pont-henri	4-11	9	72	81	10	WM
2023	Pont-iets	4-11	9	76	85	10	WM
2373	Pontyberem	4-11	30	210	240	30	WM
2179	Gymraeg Rhydaman	4-11	22	210	240	30	WM
2084	Rhys Prichard	4-11	27	195	222	27	DS
2042	Saron	4-11	30	210	240	30	TR
2176	Swiss Valley	4-11	30	213	243	30	EM
2065	Talyllychau	4-11	8	62	70	8	WM
2044	Ty-croes	4-11	18	181	199	25	EM
2006	Tymbl	4-11	21	174	195	24	WM
2379	Y Ddwylan	4-11	11	296	307	42	DS
2391	Y Felin	4-11	30	210	240	30	DS
2385	Y Fro	4-11	5	36	41	5	WM

Ysgolion Cynradd Gwirfoddol Rheoledig

Rhif Adran Addysg	Enw'r Ysgol	Ystod Oed	Capasiti Oedran Meithrin	Capasiti Derbyn ac i fyny	Cyfanswm o Capasiti yr Ysgol	ND/Derbyn yr Ysgol Ar draws bob ystod oedran	Categori Iaith
3000	Abergwili	4-11	7	61	68	8	WM
3013	Glanyfferi	4-11	14	108	122	15	WM
3003	Lacharn	4-11	14	104	118	14	EW
3004	Llanddarog	4-11	11	83	94	11	WM
3026	Llanllwni	4-11	5	42	47	6	WM
3002	Tremoilet	4-11	6	58	64	8	EM

Ysgolion Cynradd Gwirfoddol Cymorthedig

Rhif Adran Addysg	Enw'r Ysgol	Ystod Oed	Capasiti Oedran Meithrin	Capasiti Derbyn ac i fyny	Cyfanswm o Capasiti yr Ysgol	NDC
3307	Penboyr	4-11	12	89	101	12
3321	Pentip	4-11	25	193	218	27

i Ymgynhori Ynghylch newid yn un ysgol Cyfrwng Cymraeg 3-11 oed
ii Cau'n wirfoddol dan arweiniad llywodraethwyr y ysgol ddiwedd haf 2016
iii Agor Ysgol Newydd Ym Mis Medi 2016

Ysgolion Uwchradd

Rhif Adran Addysg	Enw'r Ysgol	Ystod Oed	ND	Categori laith	Capasiti
4065	Ysgol Bro Dinefwr	11-18	200	2B	1200
4056	Bro Myrddin	11-18	146	2A *	923
4054	Ysgol Bryngwyn School	11-16	214	EM	1070
4050	Ysgol Coedcae School	11-16	220	EM	1100
4029	Amman Valley School	11-18	260	2B	1588
4512	Dyffryn Taf	11-18	177	EW	1058
4060	Ysgol Gyfun Emlyn	11-18	106	EW	642
4053	Ysgol Glan-y-môr School	11-16	159	EM	793
4064	Ysgol Maes Y Gwendraeth	11-18	164	2A	1000
4063	Ysgol Uwchradd y Frenhines Elisabeth	11-18	270	EW	1600
4052	Ysgol y Strade	11-18	212	2A	1272

* Yn destun ymgynhoriad ynghylch newid i fod yn ysgol cyfrwng Gymraeg

Ysgol Uwchradd Gymorthedig Gatholig

Rhif Adran Addysg	Enw'r Ysgol	Ystod Oed	ND	Categori laith	Capasiti
4600	Ysgol Gyfun Gatholig Sant Ioan Llwyd	11-16	93	EM	465